
Adran Gwaith
a Phensiynau

# Sut i wneud cais **am Lwfans Byw i’r Anabl i blant**

**Hawdd i’w Ddarllen**



Ein cyfeirnod: **DLAc2WER** 04/23

# Cynnwys


1

DLA

**Cyflwyniad**

Tudalen 3

2



**Sut i wneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl i blant**

Tudalen 5

3




**Cyn i chi lenwi'r ffurflen**

Tudalen 8

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae Lwfans Byw i'r Anabl i blant yn fudd-dal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.



Mae'n helpu i dalu rhai o'r costau ychwanegol wrth edrych ar ôl **plentyn o dan 16 oed** gyda:


- Anabledd
- Salwch
- Cyflwr iechyd.

**DLA**

Weithiau gelwir Lwfans Byw i'r Anabl i blant yn DLA.



Mae’r wybodaeth hon yn dweud wrthych am Lwfans Byw i’r Anabl i blant, pwy all ei gael, a sut i wneud cais amdano.




**Os yw plentyn yn 16 oed neu’n hŷn**, dylent wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol (PIP).



Os yw’ch plentyn yn byw yn yr Alban, gallwch wneud cais am Daliad Plentyn Anabl.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.mygov.scot/child-disability-payment

Am fwy o wybodaeth Hawdd i’w Ddarllen ar Daliad Annibyniaeth Personol (PIP), ewch i www.gov.uk a chwiliwch am **Easy Read PIP**.

I wneud cais cais am asesiad iechyd a gofal cymdeithasol, ewch i www.gov.uk/apply-needs-assessment-social-services

# 2 Sut i wneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl i blant



I wneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl i blant, mae'n rhaid i chi fod yn:

- Yn **16 oed** neu'n hŷn, os mai chi yw rhiant y plentyn
- Yn **18 oed** neu'n hŷn, os mai chi yw gofalwr y plentyn.



I gael Lwfans Byw i'r Anabl i blant mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen a'i hanfon atom.

Gallwch hefyd anfon gwybodaeth ategol gyda'ch ffurflen.



Ffoniwch y linell gymorth y Lwfans Byw i'r Anabl i blant i anfon ffurflen atoch yn y post.

Rhif Ffôn: **0800 121 4600**
FfônTestun: **0800 121 4523**




Bydd eich cais yn dechrau ar y dyddiad y byddwch chi'n ffonio'r llinell gymorth.



Bydd gennych 6 wythnos i gwblhau'r ffurflen.

Defnyddiwch yr amlen a ddarperir i ddychwelyd y ffurflen atom.




Dywedwch wrthym yn ystod yr alwad a oes angen ffurflen arnoch mewn fformat fel braille neu brint bras.



Os na allwch glywed na siarad ar y ffôn, defnyddiwch Relay UK:

**18001** yna **0800 121 4600**



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain efallai y gallwch ddefnyddio’r **Gwasanaeth Cyfnewid Fideo** (a elwir yn VRS).

I lawrlwytho ffurflen gais, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Chwiliwch am **DLA child claim form**.

# 3 Cyn i chi lenwi'r ffurflen




Cyn i chi lenwi'r ffurflen, darllenwch y llyfryn gwybodaeth sy'n dod gyda'r ffurflen.

Mae hyn yn helpu i egluro'r cwestiynau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnom.





Mae'r ffurflen yn gofyn pa help sydd ei angen ar y plentyn gyda'i symudedd a'i ofal.

Rhowch gymaint o wybodaeth â phosib.



Anfonwch eich ffurflen wedi'i chwblhau atom ar unwaith, fel y gallwn wneud penderfyniad ar eich cais cyn gynted â phosibl.




Os oes gennych chi, anfonwch gopïau o unrhyw wybodaeth ategol gyda'ch ffurflen.

Peidiwch ag anfon eich dogfennau gwreiddiol.



Gall gwybodaeth ategol fod yn bethau fel:

- Adroddiadau meddygol
- Rhestrau presgripsiynau
- Profion lleferydd
- Cynlluniau addysg a gofal iechyd.




Nid oes angen i chi anfon llythyrau apwyntiad na gwybodaeth gyffredinol am gyflwr y plentyn.



Os ydych chi'n aros am ddiagnosis neu wybodaeth ategol:

- Gwnewch nodyn ar ffurflen y wybodaeth y byddwch chi'n ei hanfon atom yn nes ymlaen.




Gallech fod ar eich colled o ran arian os byddwch yn oedi cyn anfon y ffurflen atom.



Anfonwch eich ffurflen ac unrhyw wybodaeth ategol i'r cyfeiriad ar yr amlen a ddarperir.




Os yw'r plentyn yn derfynol wael, ffoniwch linell gymorth y Lwfans Byw i'r Anabl i blant ar **0800 121 4600**.

Mae yna reolau arbennig ar waith fel y gallwn ddyfarnu Lwfans Byw i'r Anabl i blant yn gyflymach.

**Eglurhad**

**Mae nesau at ddiwedd eu hoes** yn golygu y gallai fod gan y plentyn lai na 12 mis i fyw.

Am fwy o wybodaeth am y 'rheolau arbennig', ewch i www.gov.uk/budd-daliadau-os-ydych-yn-derfynol-wael




Os gallwch chi, dylech hefyd ofyn i feddyg y plentyn neu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol am ffurflen **SR1**.



Byddant yn cwblhau'r **SR1** a'i anfon atom neu'n ei roi i chi ei anfon atom.

Am fwy o wybodaeth Hawdd i'w Ddarllen ar Lwfans Byw i'r Anabl i blant, ewch i www.gov.uk

Chwiliwch am **Easy Read DLA child**.